llythyr newyddion
LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire Voice
Llais Sir Gâr

A'R ENILLYDD YW....

Diolch i bawb a gyfrannodd at ein harolwg diwethaf. Mae cwblhau'r arolygon yn cymryd amser, ac mae'r ymatebion rydym wedi eu derbyn yn dangos yn glir eich bod wedi rhoi ystyriaeth ddwys i bob cwestiwn.

I ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eich ymdrechion ac i ddiolch ichi, rydym yn cynnwys pob un o'r arolygon a ddychwelir mewn raffl fawr. Tynnwyd y raffl ar gyfer Arolwg 20 yn ddiweddar; daw'r enillydd o ardal Caerfyrddin ac erbyn hyn mae £50 yn gyfoethocach!

AROLWG PANEL 22

Yn Arolwg 22 roeddem wedi gofyn cwestiynau ichi am amrywiaeth eang o faterion, diolch i bawb a atebodd.

Gofynnodd **Cyngor Sir Caerfyrddin** am eich sylwadau ar:

- Eich Amser Hamdden Chi ac Aelodau Eraill y Teulu
- Parciau a Chaeau Chwarae Trefol
- Meysydd Chwarae
- Cefn Gwlad ac Ardaloedd Dŵr
- Canolfannau Chwaraeon a Hamdden

Gofynnodd **Heddlu Dyfed-Powys am:**

- Gorsafoedd Heddlu
- Data symudol

Gofynnodd **Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin am:**

- Cael Mynediad i Wasanaethau Meddygol Cyffredinol

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Eich Amser Hamdden Chi ac Aelodau Eraill y Teulu

Pan ofynnwyd i chi am eich gweithgareddau hamdden yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, y gweithgareddau mwyaf poblogaidd oedd:

Yn ystod yr wythnos
Y celfyddydau (90.3%)
Ymlacio gartref (87.3%)
Siopa (80.9%)
Gweithgareddau chwaraeon dan do (80.0%)
Crwydro neu gerdded (71.3%)
Cymdeithasu gyda ffrindiau a theulu (65.4%)
Gweithgareddau chwaraeon awyr agored (62.2%)
Gêmau (e.e. dartiau, bowlio deg (57.5%)

Penwythnosau
Ymweld ag arddangosfeydd neu ddigwyddiadau (81.2%)
Cymdeithasu gyda ffrindiau a theulu (78.5%)
Ymlacio gartref (74.5%)
Gweithgareddau chwaraeon awyr agored (75.6%)
Mynd am bryd (74.5%)
Crwydro neu gerdded (73.6%)
Mynd i'r sinema (71.6%)
Ymweld â pharciau lleol (71.0%)
Mynd i'r theatr (62.3%)

Parciau a Chaeau Chwarae Trefol

Roedd bron i dri o bob pedwar ohonoch (71.5%) neu aelod o'ch teulu wedi ymweld â pharc yn Sir Gaerfyrddin yn y flwyddyn ddiwethaf a'r canlynol oedd y rhesymau dros eich ymweliad:

Mynd am dro	65.6%
Ymlacio	53.4%
Mwynhau'r golygfeydd	49.5%
Mynd â phlant i ardaloedd chwarae	44.4%
Mynd i ddigwyddiadau neu sioeau	24.9%
Mynd â'r ci am dro	23.0%
Mynd i gael picnic	18.5%
Edrych ar sioeau blodau / gweld sioeau	14.3%
Cadw'n heini, neu chwarae gemau neu chwaraeon	11.9%
Mynd i feicio	11.4%
Cwrdd â ffrindiau	10.8%

Hefyd, gofynnwyd ichi roi eich barn ar wahanol agweddau ar barciau Sir Gaerfyrddin:

A fyddech chi'n cytuno bod parciau Sir Gaerfyrddin yn...



Roeddem wedi gofyn i chi **'Os byddai rhywbeth yn eich annog chi a'ch teulu i ymweld â pharciau Sir Gaerfyrddin yn amlach, beth fyddai hwnnw?'.** Yr atebion mwyaf poblogaidd oedd...



Roedd mwy na dau o bob tri ohonoch (68.1%) wedi dweud bod parciau Sir Gaerfyrddin yn bwysig (31.1% yn bwysig iawn a 37% yn bwysig), dywedodd 89.7% ohonoch eich bod yn fodlon ar barciau Sir Gaerfyrddin (13.9% yn fodlon iawn a 75.8% yn weddol fodlon).

Meysydd Chwarae

Gofynnwyd i chi roi eich barn ar wahanol agweddau ar feysydd chwarae Sir Gaerfyrddin

Yn gyffredinol a fyddech chi'n cytuno neu'n anghytuno...

- Bod meysydd chwarae yn rhan bwysig o ddatblygiad cymdeithasol plant ifanc
  - 99.5% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno
- Dylai'r Cyngor ddarparu meysydd chwarae yn uniongyrchol mewn cymunedau lleol
  - 97.9% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno
- Dylai'r Cyngor chwarae rhan mewn partneriaethau chwarae i gefnogi cymunedau
  - 96.6% yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno

Pan ofynnwyd pa mor bwysig oedd gwahanol agweddau ar feysydd chwarae, roedd eich atebion fel a ganlyn:

	Pwysig iawn	Gweddol bwysig	Ddim yn bwysig iawn	Ddim yn bwysig o gwbl
Diogelwch yr offer chwarae	94.3%	5.7%	0%	0%
Diogelwch arwynebedd y llawr	88.4%	11.6%	0%	0%
Diogelu'r man â ffensys	71.3%	25.6%	2.6%	0.5%
Lleoliad y maes chwarae (e.e. mewn parciau, yn agos i gartref)	72.1%	26.0%	2.0%	0%
Darpariaeth gwahanol fathau o offer chwarae	72.8%	26.2%	1.0%	0%

Roedd mwy na dau o bob pump ohonoch (43.5%) wedi dweud bod meysydd chwarae yn bwysig (15.2% yn bwysig iawn a 28.3% yn weddol bwysig) ac roedd 86.6% ohonoch yn fodlon ar feysydd chwarae Sir Gaerfyrddin (6.7% yn fodlon iawn a 77.9% yn weddol fodlon).

Cefn Gwlad ac Ardaloedd Dŵr

Y rhesymau mwyaf poblogaidd dros ymweld â chefn gwlad ac ardaloedd dŵr Sir Gaerfyrddin yw'r canlynol:

I ymlacio	74.5%
I fwynhau'r olygfa	72.8%
I ddilyn llwybrau natur, neu i fynd am dro	61.8%
I fynd â'r ci am dro	27.4%

Mae llawer ohonoch yn credu bod ardaloedd gwledig ac ardaloedd dŵr Sir Gaerfyrddin yn:

- lleoedd deniadol i ymweld â hwy (97.4% yr ymatebwyr)
- lleoedd diogel (90% yr ymatebwyr)
- hawdd eu cyrraedd (85% yr ymatebwyr) ac
- yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda yn gyffredinol (85.2% yr ymatebwyr)

Fodd bynnag:

- mae 69.6% ohonoch yn credu nad yw'r ardaloedd hynny yn cael eu cadw'n glir o sbwriel
- mae 53.4% ohonoch yn credu nad yw'r ardaloedd hyn yn cael cyhoeddusrwydd effeithiol

Pan ofynnwyd i chi beth fyddai yn eich annog chi i ymweld ag ardaloedd gwledig ac ardaloedd dŵr yn Sir Gaerfyrddin yn amlach, roeddech wedi dweud:

Rhagor o wybodaeth	36.1%
Gwell cyfleusterau	26.2%
Gwahardd cwn o barciau penodol	25.9%
Rhagor o bwyslais ar gadwraeth bywyd gwyllt	24.4%
Mwy o lwybrau cerdded neu lwybrau natur	22.2%
Gwell cysylltiadau trafnidiaeth	18.0%
Wardeiniaid neu Geidwaid yn patrolio drwy'r amser	17.7%

Roedd mwy na hanner ohonoch (58.7%) wedi dweud bod cefn gwlad ac ardaloedd dŵr Sir Gaerfyrddin yn bwysig (44.3% yn bwysig iawn ac 14.4% yn weddol bwysig) ac roedd yn galonogol gweld bod 90.3% ohonoch yn fodlon ar barciau Sir Gaerfyrddin (16.4% yn fodlon iawn a 73.9% yn weddol fodlon).

Canolfannau Chwaraeon a Hamdden

Roedd 39.2% ohonoch yn fodlon ar gyfleusterau chwaraeon a hamdden y Cyngor ac o blith y dewisiadau a nodwyd, y cyfleusterau mwyaf poblogaidd o ran ymweliadau rheolaidd yw'r pyllau nofio cyhoeddus (mae 14.0% yn mynd yno naill ai y rhan fwyaf o ddiwrnodau neu bob wythnos), canolfannau bowlio dan do (8.3% yn ymweld naill ai y rhan fwyaf o ddiwrnodau neu bob wythnos), neuaddau chwaraeon dan do (7.5% yn ymweld naill ai y rhan fwyaf o ddiwrnodau neu bob wythnos) a champfeydd neu ystafelloedd ffitrwydd (7.1% yn ymweld naill ai y rhan fwyaf o ddiwrnodau neu bob wythnos).

Hefyd roeddem wedi gofyn ichi **'Os byddai rhywbeth yn eich annog i ymweld â chyfleusterau Chwaraeon a Hamdden y Cyngor, neu i ymweld â hwy yn amlach beth fyddai hwnnw?'**



Pan ofynnwyd ichi roi barn ar wahanol agweddau ar weithgareddau chwaraeon a hamdden roeddech wedi dweud:

A fyddech chi'n cytuno bod cyfleusterau chwaraeon a hamdden Cyngor Sir Caerfyrddin yn..



Wedi ystyried popeth, roedd 39.2% ohonoch wedi dweud eich bod yn fodlon ar gyfleusterau chwaraeon a hamdden Cyngor Sir Caerfyrddin.

GWEITHREDU

Mae canlyniadau'r rhan hon o'r arolwg yn rhan o brosiect ymchwil barhaus sy'n rhoi sylw i weithgareddau hamdden trigolion Sir Gaerfyrddin, eu canfyddiad o wasanaethau hamdden y Cyngor a'r defnydd a wneir ohonynt. Dadansoddir y canlyniadau yn ôl gwahanol fathau o ddefnyddwyr e.e. yn ôl oed, rhyw a'r ardaloedd lle mae pobl yn byw. Mae'r canfyddiadau hyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer ein cynlluniau busnes trwy ddangos inni ba feysydd sydd wedi gwella ers yr arolwg diwethaf a thynnu sylw at y meysydd y mae angen rhoi rhagor o sylw iddynt.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth ynghylch Amser Hamdden yn Sir Gaerfyrddin, cysylltwch os gwelwch yn dda â Huw Parsons, Rheolwr Marchnata, drwy ffonio 01554 747542 neu edrychwch ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin www.sirgar.gov.uk/hamdden

HEDDLU DYFED-POWYS

Gorsafoedd Heddlu

Roedd un o bob pump ohonoch (19.9%) wedi dweud eich bod wedi ymweld â gorsaf heddlu yn Sir Gaerfyrddin yn y flwyddyn ddiwethaf. Gofynnwyd i'r rheiny a oedd wedi ymweld â gorsaf heddlu pa amser o'r dydd yr oeddynt wedi galw yno, pa ddiwrnod a pha fis. Yr atebion mwyaf poblogaidd oedd rhwng 9am a 12.00 canol dydd (28%) ac ar ddydd Llun (10.0%).
Pan ofynnwyd beth oedd y rheswm dros eich ymweliad, yr ateb mwyaf poblogaidd oedd rhoi gwybod am aflonyddwch / niwsans / sŵn. Manylir ar y canlyniadau yn y tabl isod:

Beth oedd y rheswm dros eich ymweliad?...	
I ddangos eich dogfennau	21.2%
I roi gwybodaeth i'r heddlu	20.0%
I roi gwybod am aflonyddwch / niwsans / sŵn	15 %
I ofyn am gyngor / cyfarwyddiadau / gwybodaeth	12.5%
I roi gwybod am faterion traffig (heblaw am ddamweiniau)	11.2%
I roi gwybod am dorcyfraith	10.0%
I roi gwybod am eiddo a gollwyd neu a gafwyd	7.5%
I roi datganiad	5.0%
I roi gwybod am fater sy'n ymwneud ag anifail	3.8%
I roi gwybod am berson coll	2.5%
I roi gwybod i'r heddlu y byddai eich cartref yn wag	1.2%
I roi gwybod am wrthdrawiad traffig	2.5%
Ddim yn cofio	2.5%
I gydymffurfio ag amodau mechnïaeth	0%

Data Symudol

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymchwilio ar hyn o bryd i'r posibiliadau o ran darparu offer data symudol i blismyn. Byddai hynny'n galluogi plismyn i lenwi ffurflenni ac i ymateb i ymholiadau electronig ar gyfrifiaduron symudol neu ar gyfrifiaduron yn eu cerbydau. Un o fanteision posibl hynny fydd galluogi plismyn i dreulio mwy o amser ar batrôl heb orfod dychwelyd i'r orsaf i wneud gwaith gweinyddol.

Roeddem wedi gofyn, cyn ichi ddarllen y paragraff esboniadol, a oeddech yn credu bod swyddogion Heddlu Dyfed-Powys eisoes yn defnyddio cyfrifiaduron symudol ar batrôl ac roedd ychydig llai nag un o bob pump ohonoch (19.3%) wedi ateb 'ydw' tra bo pedwar o bob pump ohonoch wedi ateb 'nac ydw'.

Pan ofynnwyd a ddylid defnyddio cyllid yr Heddlu i dalu am helaethu'r data symudol, roedd bron i dri o bob pedwar ohonoch (73.9%) wedi dweud 'dylid' ac roedd ychydig mwy nag un o bob pedwar ohonoch (26.1%) wedi ateb 'na ddylid'.

GWEITHREDU
Roedd awdurdod yr heddlu wedi gwneud cais am gyllid i brynu cyfrifiaduron data symudol yn gynharach eleni ond, fel pob awdurdod heddlu yng Nghymru, nid oedd y cais yn llwyddiannus. Fodd bynnag, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyrdd yn ddiweddar ynghylch Plismona a chyhoeddwyd ail rownd gyllido. Felly, rydym yn llunio ail gynnig ond mae hwn yn cael ei baratoi ar y cyd gan y pedwar heddlu yng Nghymru. Dylem gael gwybod ym mis Hydref neu Dachwedd a oedd y cais hwn yn llwyddiannus. Mae'r heddlu eisoes yn arbrofi â data symudol yn yr ardal ac mae'r canlyniadau cychwynnol yn galonogol iawn.

BWRDD IECHYD LLEOL SIR GAERFYRDDIN

Cael Mynediad i Wasanaethau Meddygol Cyffredinol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi diffinio'r targed yng Nghymru o ran **Cael Mynediad i Wasanaethau Meddygol Cyffredinol** fel a ganlyn: "bydd cleifion yn gallu gweld aelod o'r tîm gofal cychwynnol o fewn 24 awr i ofyn am apwyntiad (a llawer ynghynt mewn argyfwng)".

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin yn awyddus i gael gwybod pa mor fodlon yw'r cleifion ar y modd y maent yn cael mynediad i Wasanaethau Meddygol Cyffredinol, a byddai'r Bwrdd yn falch o gael eich ymateb i'r cwestiynau canlynol.

Dywedodd 86.8% ohonoch eich bod wedi ffonio practis eich meddyg teulu yn ystod y 12 mis diwethaf i drefnu apwyntiad. I fesur sut mae eich galwadau'n cael eu trafod yn gyffredinol, roeddem wedi gofyn...

Yn gyffredinol, beth oedd ymateb y practis i'ch galwad? Roedd yr ymatebion fel a ganlyn...

Atebwyd y ffôn gan un o staff y dderbynfa ymhen ychydig eiliadau	46.4%
Cefais gynnig dewisiadau awtomatig drwy ddewislen, cyn i'r alwad gael ei hateb gan un o staff y dderbynfa	23.5%
Roedd y llinell yn brysur drwy'r amser - bu'n rhaid imi ffonio'r practis nifer o weithiau cyn cael ateb	21.5%
Atebwyd y ffôn gan un o staff y dderbynfa ar ôl canu am dipyn	8.6%

Roeddem wedi gofyn a oeddech wedi cael cynnig apwyntiad yn ôl eich gofynion chi, hynny yw apwyntiad y diwrnod hwnnw neu'r diwrnod canlynol os oedd y mater yn un brys, a hynny gydag aelod priodol o'r Tîm Gofal Cychwynnol, neu apwyntiad ymhen ychydig wythnosau os nad oedd y mater yn un brys) ac roeddem yn falch o weld bod 81.7% ohonoch wedi rhoi ateb cadarnhaol ac 18.3% wedi rhoi ateb negyddol.

Roedd bron i dri o bob pedwar ohonoch (71.8%) wedi dweud os nad oedd y mater yn un brys, eich bod wedi gallu cael apwyntiad gyda meddyg teulu o'ch dewis chi.

Yn gyffredinol, roeddech wedi dweud bod y profiad o gysylltu â phractis eich meddyg teulu yn:

Da iawn	38.9%
Da	20.7%
Boddhaol	22.6%
Gwael	11.8%
Gwael iawn	5.9%

Roeddem yn awyddus iawn cael gwybod a oeddech chi, neu eich teulu neu eich ffrindiau, wedi cael anawsterau wrth gysylltu â meddyg teulu. Roedd bron i un o bob pedwar ohonoch (24.1%) wedi dweud ichi gael anawsterau ac roedd yr anawsterau hyn yn cynnwys ceisio trefnu apwyntiad, neu orfod aros am sawl diwrnod cyn cael apwyntiad; dywedodd rai y byddent wedi gwella neu wedi gwaethygu'n fawr, cyn cael gweld meddyg.

GWEITHREDU
Bydd y canlyniadau ynghylch cysylltu â gwasanaethau meddyg teulu yn cael eu rhannu â meddygon teulu yn Sir Gaerfyrddin a'u defnyddio i glustnodi arferion da. Rhennir y canfyddiadau hyn â Chyngor Iechyd Cymunedol Sir Gaerfyrddin sy'n gyfrifol am gynrychioli barn y cyhoedd ar wasanaethau lleol y GIG. Hefyd, cânt eu rhannu â'r aelodau o'r Panel Iechyd sydd oll â diddordeb yn y gwasanaethau iechyd.

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN - YMGYNGHORIAD

'Cyngor sy'n Gwrando' yw un o ddwy thema arweiniol Cyngor Sir Caerfyrddin dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r Cynghorydd Meryl Gravell, Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn esbonio rhagor:

"Rwyf am i'r Cyngor ganolbwyntio ar y pethau y mae pobl leol yn dweud wrthym sy'n bwysig iddynt. Dyna pam y byddwn yn dechrau ymgynghori'n helaeth ac yn rhoi cyfle i drigolion lleol, busnesau a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau i ddweud wrthym beth sydd bwysicaf iddynt; pa fath o Gyngor y maent yn dymuno'i gael a pha rai o wasanaethau'r Cyngor y gellid eu gwella.

Byddwn yn dechrau ymgynghori ym mis Mehefin trwy gyfarfod â rhai o aelodau'r Panel Dinasyddion. Yn y cyfarfod hwnnw byddwn yn gofyn iddynt glustnodi gwelliannau y gallai'r Cyngor eu cyflawni, a'u rhoi yn nhrefn blaenoriaeth.

Byddwn yn parhau i ymgynghori trwy gyfrwng Newyddion Cymuned, ein fforwm newydd i bobl dros 50 oed, y Fforwm Ieuenctid, busnesau lleol a channoedd o bartneriaid a chyrff gwirfoddol."

Cynhaliwyd y cyfarfod ymgynghori cyntaf â'r aelodau o'r Panel Dinasyddion a'r Fforwm Ieuenctid ar 12fed Mehefin 2008 yng Nghaerfyrddin. Cafwyd trafodaeth frwd a chodwyd nifer o faterion. Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella oedd:

- Mynediad i'r anabl i Oriel Myrddin
- Tai Cyngor fforddiadwy
- Llwybrau troed a llwybrau ceffylau cynaliadwy - cynnal a chadw a mynediad
- Datblygu tref Caerfyrddin a chreu mannau cerdded/beicio/mannau agored 'gwyrdd'
- Pentrefi cynaliadwy
- Gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu - ym mhob rhan o'r sir
- Cyfleusterau tai cyngor i'r anabl
- Mae Llyfrgell Caerfyrddin yn swnllyd iawn ac mae'r cyfleusterau ar gyfer pobl anabl yn annigonol. Mae'n rhaid rhannu toiledau â phobl sydd heb fod yn anabl
- Rhoi'r gorau i ddatblygiadau ar gyrion trefi ac annog busnesau bychain i ddatblygu yng nghanol trefi - pob tref
- Integreiddio'r systemau trafnidiaeth - cydlynu amserlenni bysiau a threnau a meysydd parcio. Defnyddio'r tir diffaith ger yr orsaf
- Mae angen ffordd osgoi ar Landeilo - mae lorïau trymion yn achosi tagfeydd ar y strydoedd ac yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth yn y dref
- Parcio mewn trefi llai e.e. Llandeilo. Mae ffioedd meysydd parcio wedi cael effaith ar fasnach yn yr ardal. Mae ceir yn parcio ochr wrth ochr ar y stryd oherwydd nad yw gyrwyr eisiau talu am ddefnyddio'r meysydd parcio.

Croesawyd y cynrychiolwyr gan y Cyng. Pam Palmer, Rheolwr Busnes Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Caerfyrddin. Ar ôl y digwyddiad, dywedodd y Cyng. Palmer:

> "Mae'r canlyniadau hyn wedi rhoi gwybodaeth werthfawr i'r Cyngor a fydd yn ein helpu i lunio'r math o wasanaethau y mae ein trigolion yn dymuno'u cael.
>
> Carwn ddiolch o waelod calon i bob aelod o'r Panel a wnaeth roi o'u hamser i gyfrannu i'r cyfarfod ymgynghori. Rwy'n gobeithio eich bod wedi mwynhau'r profiad a'ch bod yn teimlo'i fod yn fuddiol."

Roedd nifer o Gynghorwyr yn bresennol yno hefyd i wylio'r drafodaeth a gwrando ar yr adborth. Mae'r Cynghorwyr yn aelodau o Fwrdd Gweithredol y Cyngor (yr grŵp uwch o gynghorwyr sy'n gyfrifol am redeg gwasanaethau'r Cyngor o ddydd i ddydd).

GWEITHREDU

Bydd Bwrdd Gweithredol y Cyngor a'r Tîm Rheoli Corfforaethol (Uwch-swyddogion) yn cael adroddiad ynghylch canlyniadau'r cyfarfod ym mis Medi 2008.
Gan fod y cyfarfod ymgynghori ym mis Mehefin wedi bod mor llwyddiannus, byddwn yn cynnal digwyddiadau rheolaidd ym mhob rhan o'r sir. Byddwn yn rhoi gwybod ichi am ganlyniad y gwaith hwn a digwyddiadau eraill mewn rhifynnau o'r llythyr newyddion hwn yn y dyfodol.

YMATEB

Daliwch i roi eich barn i ni, er mwyn i ni barhau i wneud gwelliannau. Os hoffech gynnig sylwadau ar unrhyw agwedd benodol ar Banel Dinasyddion Sir Gâr, cysylltwch â:

Y Cydgysylltydd Ymgynghori
Polisi a Chwsmeriaid
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Dref, Llanelli
SA15 3AH
Ffôn: 01554 742304
E-mail: Ymgynghori@sirgar.gov.uk

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch ar ffurf print bras, Braille neu dâp sain, ffoniwch 01554 742304

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Bwrdd Iechyd Lleol Local Health Board Sir Gaerfyrddin Carmarthenshire

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN